

Croeso i'n newyddlen, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf gan Uchelgais Gogledd Cymru, sef Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Mae'r newyddlen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn dod ag awdurdodau lleol y rhanbarth a phartneriaid at ei gilydd i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Gyda'n gilydd, rydym yn cyflawni'n **rhanbarthol** ar **drafnidiaeth** a **chynllunio**, ac yn gweithio i wella **economi** Gogledd Cymru - drwy raglenni trawsnewidiol megis **Cynllun Twf Gogledd Cymru** a **Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam**. Ein nod yw creu miloedd o swyddi a ffyniant i'n pobl, cymunedau a busnesau - gan sicrhau bod Gogledd Cymru yn gysylltiedig, gwydn, blaengar a chynaliadwy.

Rydym yn gwneud hyn tra'n hyrwyddo ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth ac yn unol â nodau llesiant i Gymru.


Os hoffech fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i www.uchelgaisgogledd.cymru neu anfonwch e-bost at gwyb@uchelgaisgogledd.cymru Diolch.

## CYLLID NEWYDD AR GAEL AR GYFER TECHNOLEG DDI-WIFR YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae cronfa newydd gwerth £18.8 miliwn wedi'i lansio gan Uchelgais Gogledd Cymru i gefnogi busnesau yn y rhanbarth i uwchraddio eu systemau technoleg ddi-wifr.

Fel rhan o Gynllun Twf Gogledd Cymru, bydd y Gronfa Grant Technoleg Ddi-wifr Uwch yn rhedeg tan fis Mawrth 2030 ar gyfer busnesau sydd â phrosiectau wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru. Bydd cyllid grant ar gyfer hyd at 50% o gostau prosiect cymwys yn cael ei ddyrannu, gyda grantiau unigol rhwng £20,000 a £2 filiwn ar gael.

Mae technoleg ddi-wifr uwch yn cynnwys y Rhyngrwyd Pethau (IoT), 5G, Wi-Fi a'r systemau cyfathrebu lloeren diweddaraf, pob un ohonynt yn helpu busnesau i wella eu cysylltedd, gwella cynhyrchedd, awtomeiddio prosesau a gweithredu'n fwy effeithlon. Gall y technolegau hyn gefnogi gweithgareddau fel monitro o bell, rhannu data a gweithrediadau doethach ar draws ystod eang o ddiwydiannau.



Dewch i wybod mwy

## TORRI'R DYWARCHEN YN DECHRAU'R CAM NESAF O WAITH AR GYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU

Mae partneriaid wedi cwrdd ar safle Cyn Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych i nodi dechrau cam newydd o waith.

Yn mynychu'r digwyddiad, roedd cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych, sy'n arwain y gwaith, Uchelgais Gogledd Cymru, sy'n cefnogi'r prosiect, a Jones Bros, sy'n cyflawni'r cam hwn o'r prosiect - y gwaith adfer a dymchwel, sy'n allweddol i ddatgloi datblygiad y safle ehangach.

Bydd y cynllun llawn yn edrych ar ail-ddatblygu ac adfer y safle 53 erw adfeiliedig drwy adeiladu tai newydd, unedau masnachol a mannau cymunedol gwyrdd. Y nod yw cefnogi adferiad economaidd, gwella mynediad at gyflogaeth safon uchel a sicrhau bod twf economaidd yn helpu i leihau anghydraddoldeb a thlodi yn yr ardal.



Dewch i wybod mwy

## CYMERADWYAETH WEDI'I SICRHAU AR GYFER PORTH BUSNES NEWYDD Y BRIFYSGOL

Mae Porth Busnes arfaethedig Prifysgol Wrecsam wedi cyrraedd carreg filltir bwysig drwy gael cymeradwyaeth ffurfiol o'i achos busnes amlinellol ar gyfer ychydig dros £7 miliwn gan Gynllun Twf Gogledd Cymru.

Bydd y fenter £22.9m yn hyrwyddo cydweithio ac yn sefydlu pwynt mynediad i fusnesau at arbenigedd, ymchwil a chymorth arbenigol y Brifysgol. Bwriad y Porth yw cynorthwyo i fynd i'r afael â heriau rhanbarthol ynghylch cynhyrchiant a sgiliau arbenigol gan ganolbwyntio'n benodol ar arloesi a meysydd twf gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI).

Mae'r prosiect yn arbennig o arwyddocaol i Uchelgais Gogledd Cymru oherwydd, yn ogystal â chyllid y Cynllun Twf, bydd yn cael budd o £4m drwy Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam - sy'n adlewyrchu ein cydweithrediad rhanbarthol ar waith.



Dewch i ddarganfod mwy am y prosiect a'i gyllid.

## MWYNHAU YN YR EISTEDDFOD

Cafodd Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn eleni ei phweru'n rhannol gan hydrogen, diolch i fenter wedi'i hariannu gan Uchelgais Gogledd Cymru, ei harwain gan Fenter Môn a'i chyflawni gan GeoPura. Roedd ymwelwyr i'r ŵyl yn medru gweld y generaduron ar y safle a hyd yn oed blasu'r dŵr - sef yr unig sgil-gynnyrch o'r ffynhonnell ynni gwyrdd hon.

Yn ystod yr Eisteddfod, roedd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn ddiolchgar o ymddangos ar y safle gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Menter Môn - lle cafodd aelodau o'r tîm gyfle i rannu newyddion am brosiectau cyffrous a mwynhau gweithgareddau gyda phobl ifanc.

Aeth llongyfarchiadau mawr i Robin Powell-Jones o Fethel, Gwynedd, a enillodd 'Helfa Sticeri' Uchelgais Gogledd Cymru, wrth iddo dderbyn ei wobr - taleb ac ychydig o ddanteithion melys.








## DECHRAU GWAITH ADEILADU AR EGNI YN M-SPARC

Mae gwaith ar Egni - prosiect Cynllun Twf Gogledd Cymru - wedi dechrau yn swyddogol, gan nodi carreg filltir enfawr ar gyfer economi arloesi gynyddol Gogledd Cymru.

Bydd yr ail adeilad ym Mharc Gwyddoniaeth Prifysgol Bangor - M-Sparc, datblygiad newydd Egni, yn ehangu gallu'r safle i gefnogi busnesau, ymchwilwyr ac arloeswyr sy'n gweithio ar draws ynni carbon isel a thechnolegau uwch.

Disgwylir i'r adeilad newydd, sy'n cael ei gyflawni gan Wynne Construction, gael ei gwblhau erbyn haf 2027. Mae'r prosiect yn dangos yr hyn y gall gweithio cadarnhaol rhwng partneriaethau ei gyflawni - gan ei fod yn cael ei gefnogi gan £3.94m o Gynllun Twf Gogledd Cymru, sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â £2.5m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, £3m gan Borthladd Rhydd Ynys Môn a £580,000 gan Brifysgol Bangor.



Darllenwch y stori'n llawn

## CanfodAU YN ENNILL GWOBR ADEILADU MAWREDDOG



Mae Uchelgais Gogledd Cymru, Prifysgol Wrecsam a'i phartner adeiladu - Wynne Construction, yn dathlu ar ôl i adeilad arloesol CanfodAU y Brifysgol gael ei enwi'n Brosiect Adeiladu'r Flwyddyn dros £5m yng Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2026.

Mae CanfodAu - Canolfan Peirianneg ac Arloesedd - yn brosiect Cynllun Twf Gogledd Cymru ac agorodd ei ddrysau yr haf diwethaf yn dilyn rhaglen adeiladu 18 mis. Mae'r datblygiad yn darparu canolfan ar gyfer ymchwilio, dylunio ac adeiladu cynhyrchion sy'n cynnwys ffotoneg, opteg a chyfansoddion, fel dewisiadau amgen ysgafn ar gyfer gweithgynhyrchu.

Mae ennill Gwobr Cymru yn golygu bod modd i CanfodAU fynd ymlaen i gynrychioli Cymru yn y Gwobrau Adeiladu Arbenigrwydd Cenedlaethol, fydd yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd yn Llundain.

Cewch wybod mwy yma.

## PECYN GWERTH MILIYNAU O BUNNOEDD I ROI HWB I SGILIAU'R PARTH BUDDSODDI

Mae pecyn gwerth £12.43 miliwn i ehangu sgiliau ar draws Sir y Fflint a Wrecsam wedi'i gymeradwyo, gan baratoi'r ffordd ar gyfer twf yn y sectorau gweithgynhyrchu uwch a digidol.

Nod y buddsoddiad yw cefnogi Strategaeth Sgiliau'r Parth Buddsoddi er mwyn mynd i'r afael â phrinder sgiliau allweddol, hyrwyddo mynediad at yrfaoedd gwerth uchel a chryfhau cysylltiadau rhwng cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant.



Arweinir y Strategaeth Sgiliau gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, ac fe'i cyflawnir mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, Coleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam. Bydd y buddsoddiad yn cyllido cyfres o brosiectau ar draws prentisiaethau, graddau a hyfforddiant wedi'i ddylunio gan gyflogwyr. Mae'r rhaglen yn ceisio cryfhau sylfaen weithgynhyrchu uwch y rhanbarth, cefnogi technolegau sy'n dod i'r amlwg ac uchafu'r cyfleoedd sy'n cael eu creu drwy'r Parth Buddsoddi.

Darllenwch mwy

## ARDDANGOS Y RHANBARTH I FUDDSODDWYR

Am y tro cyntaf, fe wnaeth rhai o aelodau tîm Uchelgais Gogledd Cymru fynychu Fforwm Buddsoddi ac Isadeiledd Eiddo Tiriog y DU (REiif) fel rhan o Bafiliwn Cymru Gyfan.

Gyda chymheiriaid o Brifddinas Ranbarth Caerdydd, Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin, Tyfu Canolbarth Cymru ac mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, dangosodd Uchelgais Gogledd Cymru yr hyn sydd gan Gymru i'w chynnig i fuddsoddwyr.




Drwy drafodaethau panel craff, pwysleisiodd y tîm Cymru Gyfan gymwysterau'r genedl fel lleoliad buddsoddadwy - gan osod cyfleoedd i fusnesau ddatblygu a thyfu ar draws ystod eang o sectorau allweddol.

### YN YSTOD Y DIGWYDDIAD, FE WNAETH UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU:

- Cynnal trafodaeth dros frecwast, wedi'i noddi gan Ontix. Canolbwyntiodd y sesiwn hon ar 'gynllunio ar gyfer cysylltedd digidol ar y safle' ac edrych ar y rhesymau pam fod perfformiad ffonau symudol y tu mewn a thu allan yn hanfodol o ran gwerth eiddo, twf rhanbarthol a strategaethau mannau cysylltiedig. Dewch o hyd i fwy wrth i Ontix ystyried y rhesymau pam fod cysylltedd digidol bellach yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer llwyddiant rhanbarthol.
- Lansio Prosbectws Buddsoddi Ynni Strategol Gogledd Cymru newydd - gan osod allan achos clir a chymhellol dros fuddsoddi mewn ynni carbon isel ac adnewyddadwy ar draws y rhanbarth. Mae'r cyfleoedd a ddangoswyd yn adlewyrchu maint yr uchelgais yn y rhanbarth a pharodrwydd prosiectau i symud ymlaen.
Gweld Prosbectws Buddsoddi Ynni Strategol Gogledd Cymru

## LANSIO CYNLLUNIAU GRANT 4G+

Bydd ein Prosiect 4G+ yn gwella cysylltedd symudol ar draws safleoedd economaidd allweddol yng Ngogledd Cymru, gan ganolbwyntio ar lwybrau trafnidiaeth, a chanolfannau busnes a thwristiaeth lle mae isadeiledd digidol yn hanfodol i gefnogi twf a buddsoddiad. Mae hefyd yn helpu gosod sylfaen ar gyfer defnyddio 5G ymhellach, gan gryfhau'r cynnig hwn o gysylltedd hirdymor ar draws y rhanbarth.




Yn ddiweddar, lansiodd y prosiect Cynllun Twf hwn ddwy ffrwd ariannu grant wedi'u targedu i gefnogi'r ddarpariaeth o isadeiledd symudol a helpu datgloi cyfleoedd datblygu:

- **Cynllun Grant Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus** - Mae cyllid ar gael i uwchraddio / ailosod asedau presennol sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus er mwyn cefnogi seilwaith 4G/5G newydd.
- **Cynllun Grant Diwydiant** - Mae'r cynllun hwn yn cefnogi gweithredwyr Rhwydwaith Symudol, gwesteiwyr niwtral a darparwyr seilwaith gyda chyllid cyfalaf i roi seilwaith symudol newydd neu wedi'i uwchraddio mewn lleoliadau blaenoriaeth er mwyn gwella cysylltedd a chefnogi datblygu yn y dyfodol.

Dewch i ddarganfod mwy

## CYLLID AR GYFER CYNLLUNIAU TRAFNIDIAETH Y RHANBARTH

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i gydweithio â chynghorau yng Ngogledd Cymru wrth iddynt fynd yn eu blaenau i gyflawni cynlluniau blwyddyn un sydd wedi'u cymeradwyo drwy Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynlluniau i'w hariannu yn deillio o'r polisïau a'r ymyriadau a nodir yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025-2030 - cynllun a ddatblygwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae'r datblygiadau yn gymysgedd o welliannau i wasanaethau a seilwaith yn ogystal â gwaith paratoi wedi'i ariannu, megis astudiaethau dichonoldeb, dyluniadau ac achosion busnes.

Bydd y cyllid o fudd i ddiogelwch ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, priffyrdd a theithio llesol, gyda phrosiectau wedi'u cynllunio i ddarparu system drafnidiaeth sy'n fwy hygyrch, cynaliadwy, fforddiadwy ac integredig ar gyfer y rhanbarth.



Dewch i Wybod Mwy.

## DIGWYDDIAD BLAENLLAW BUSNES MAWR GOGLEDD CYMRU



Roeddem yn falch o gefnogi digwyddiad cyntaf Busnes Mawr Gogledd Cymru, a gynhaliwyd yn Venue Cymru fis Mehefin. Daeth y diwrnod ag entrepreneuriaid, cyflogwyr, awdurdodau lleol ac arweinwyr busnes at ei gilydd, ynghyd ag addysgwyr a phobl ifanc a oedd yn awyddus i edrych ar y cyfleoedd cyffrous sydd gan Ogledd Cymru i'w cynnig.

Gyda deg parth sector-benodol, roedd cyfoeth o wybodaeth, mewnwelediad a chyfleoedd i gydweithio i'r holl ymwelwyr. Fe wnaeth ein tîm fwynhau siarad am ein gwaith ar draws Gogledd Cymru, boed ar sgiliau, trafnidiaeth rhanbarthol a chynllunio, neu wella ein heconomi ymhellach - gan gynnwys drwy brosiectau Cynllun Twf y rhanbarth. Edrychwn ymlaen at barhau'r ddeialog gyda busnesau, unigolion a rhanddeiliaid traws-sector yn y dyfodol.

## PENODI CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

Penodwyd Hedd Vaughan-Evans yn Gyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru, lle bydd yn awr yn arwain ar gyflawni prosiectau'r Cynllun Twf. Drwy weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws llywodraeth leol, mewn addysg uwch a'r sector preifat, bydd ei waith yn canolbwyntio ar yrru twf economaidd a chreu cyfleoedd hirdymor ar gyfer cymunedau a busnesau ar draws Gogledd Cymru.

Gan ddod ag arbenigedd helaeth mewn llywodraeth leol, rheoli perfformiad a chyflawni rhaglenni a phrosiectau, bu Hedd yn Bennaeth Gweithrediadau yn Uchelgais Gogledd Cymru yn flaenorol.




Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru neu ewch i uchelgaisgogledd.cymru